# PERTHYN

Awst / Medi 2026 Rhifyn 350



**Martyn Geraint yn annerch**
*Llun gan Owain Roberts*

## Y Sul Hwyl ar Fferm y Bargoed, Llwyncelyn
*(Tudalennau 6, 7 a 8)*

# Gair gan y Gweinidog

Gyfeillion, mae mis y gwyliau ar y gorwel ac felly dyma gyfle i gyflwyno fy niolchiadau personol i bawb sydd wedi bod yn gweithio'n gydwybodol i sicrhau tystiolaeth Capel Y Morfa. Mae'r rhestr yn un faith ac ar yr un pryd yn amrywiol ac eang. O fod yn swyddog i'r person sy'n golchi llestri wedi'r baned fisol, yna ar Sul Y Cymun rwy'n diolch o galon i chi gyd. Ymhellach, diolch am eich cyfeillgarwch a'ch goddefgarwch!

Fe fyddaf yn mynd a dod yn ystod mis Awst, mis traddodiadol y gwyliau, ac ar un o'r Suliau, fe fyddaf yn ymweld â Chadeirlan Aberhonddu. Mae hyn wedi mynd yn rhyw fath o bererindod i mi ac yn gyfle i addoli yn hytrach na arwain addoliad. Fe ofynnodd rhywun i mi yn ddiweddar, Pam? Y mae'r ateb yn cwmpasu nifer o ystyriaethau ac yn eu plith y canlynol –

- Mae'n gyfle i mi addoli trwy ddilyn patrwm gwahanol
- Mae'n gyfle i mi gael fy atgoffa o'n gwreiddiau fel Presbyteriaid
- Mae'n gyfle i mi gael fy atgoffa o ehangder yr Eglwys, mae hi'n fwy na'r eglwys leol
- Mae'n gyfle i mi fod yn rhan o gymuned sy'n wahanol i'r gymuned rwy'n rhan ohoni o ddiwrnod i ddiwrnod, o Sul i Sul

Y pwynt olaf sy'n bwysicach i mi na dim byd arall. Rwy'n cofio mynd am y tro cyntaf ychydig flynyddoedd yn ôl, a theimlo'n anghyffyrddus, teimladau sy'n rhan o brofiad rhywun sy'n ymweld â lle o addoliad am y tro cyntaf. Anghyffyrddus gyda'r addoliad, anghyffyrddus gyda'r gynulleidfa, anghyffyrddus gyda'r adeilad ond gydag amser, mae'r cyfan wedi tawelu a bellach rwy'n edrych

ymlaen at fy ymweliad blynyddol. Mi roedd yna rywbeth arall hefyd, croeso un o’r Canoniaid oedd wedi cyflawni ei hyfforddiant yn Aberystwyth, ac mae hynny’n bregeth ynddo’i hun, y modd yr ydym yn ymagweddu ac yn byw ein bywydau yn yr Eglwys.

Beth bynnag am hynny, yr hyn rwy’ am danlinellu yn fwy na dim trwy gyfrwng y geiriau yma yw pwysigrwydd yr ‘anghyffyrddus’! Mi roedd gan mam gefnder, Bedyddiwr mawr, gŵr oedd wedi bod yn Genhadwr Lleyg yn Alice Springs, Awstralia, ond wedi dychwelyd adref er mwyn caniatáu i’w frawd fynd i’r Coleg Beiblaidd yn Abertawe, Ffermwr a Phregethwr Lleyg. Ei eiriau i mam wrth iddi ddechrau canu’r organ mewn oedfa yn Horeb, Garndolbenmaen, yn ferch ifanc, nerfus, oedd “Mae nerfusrwydd yn beth da!” Ac felly ninnau, fe allwn fod yn or-hyderus weithiau yn ein haddoliad a’n bodolaeth oddi mewn i fywyd yr Eglwys. Yr alwad i wyleidd-dra a gostyngeiddrwydd. Nid fel cyflwr sy’n agor ein hunain, galon a meddwl i gael ein sathru a’n defnyddio gan eraill, ond yn hytrach cyflwr sy’n caniatáu i ni gael ein dylanwadu gan Ysbryd Glân Duw. Pam fyddai’n bresennol yn yr oedfa honno yng Nghadeirlan Aberhonddu, heb unrhyw gyfrwng cyfarwydd i’m cynnal, fyddai’n teimlo ac yn meddwl yn wahanol?

Y gwahoddiad a’r her i chi a fi, yw bod yn y cyflwr yna o Sul i Sul, a’r ymdeimlad pellach o fraint o gael addoli yn enw Crist. O fod yng nghwmni arbennig ein gilydd, a mawrygu cymuned y mae galw arnom i’w gwasanaethu.

Boed i ni yr argyhoeddiad cywir i wneud hynny.

Mwynhewch yr heulwen a’r gorffwys.

Eifion.

# Newyddion

## Cofion…

Anfonwn ein cofion at Dolig Farrell yn yr ysbyty ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl neu yn eu cartrefi eu hunain.

Anfonwn ein cofion hefyd at Gethin Owen Hughes sydd wedi derbyn triniaeth tra yn y coleg yng Nghaerdydd.

## Llongyfarchiadau…

i Mary Morgan sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ddiwedd Gorffennaf ac i’w phriod Meirion Morgan a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar Fedi 30ain.

i Bethan Bryn sydd wedi derbyn Cymrodoriaeth er anrhydedd gan Goleg y Brifysgol Aberystwyth.

i’r myfyrwyr a’r disgyblion sydd wedi graddio neu sydd wedi cwblhau eu cyrsiau astudio. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau pennod newydd yn eu bywydau.

## Dymuno’n dda…

i’r Corau a’r Partïon fu’n ymarfer yng Nghapel y Morfa a’r Morlan ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las ac i’r plant a’r ieuenctid fydd yn rhan o’r cystadlu a’r cyflwyniadau.

i’r myfyrwyr a’r disgyblion sydd wedi graddio neu sydd wedi cwblhau eu cyrsiau astudio. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau pennod newydd yn eu bywydau.

# Newyddion Ebeneser



## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion cynhesaf at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

## Gwasanaethau mis Medi

6 Medi: Gwasanaeth Cymun am 2.15 y.p.

20 Medi: Gwasanaeth am 2.15 y.p.

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

Er na fydd gwasanaethau yn Ebeneser yn ystod mis Awst bydd Gwasanaethau Unedig yng nghapeli'r dref yn eu tro bob bore Sul am 10 o'r gloch.

# Clwb Sul Capel y Morfa

## Ward y Plant Ysbyty Bronglais




Aeth rhai o aelodau'r Clwb Sul i Ward y Plant Ysbyty Bronglais i gyflwyno siec am £340, sef yr arian a dderbyniwyd yn y Bore Coffi a gynhaliwyd ar ddiwedd Mehefin. Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r cyfraniad yn fawr.

### Sul Hwyl – 6 Gorffennaf

Aeth nifer dda o deuluoedd ac aelodau o Gapel y Morfa i'r Sul Hwyl a gynhaliwyd ar Fferm y Bargoed, Llwyncelyn ar 6 Gorffennaf. Daeth plant, ieuenctid ac oedolion ynghyd o wahanol eglwysi yn yr Henaduriaeth gan lenwi'r Neuadd Digwyddiadau. O dan arweiniad medrus Martyn Geraint cafwyd sesiwn fywiog yn llawn profiadau amrywiol a oedd yn ein tywys ar daith fel aelodau o Deulu Duw yn y byd gan arddangos ffrwythau'r ysbryd yn ein hymwneud ag eraill. Yna, yn dilyn y cinio roedd cyfle i'r plant a'r

ieuenctid fwynhau'r gweithgareddau - y lle chwarae meddal a'r trampolinau. Trefnwyd y digwyddiad eto eleni gan Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth.



Wythnos olaf y tymor cyflwynwyd y stori am Chwyrnellais yn cyfarfod â Pedr a chlywed am hanes Iesu. Neges Pedr i Chwyrnellais a'i deulu oedd bod Duw yn caru pawb yr un fath pa bynnag wlad rydym yn perthyn iddi neu pa bynnag liw yw ein croen. Rydym i gyd yn perthyn i Deulu Duw.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar ddydd Sul 6 Medi.

*Eleri Davies*

# Diwrnod o Hwyl a Chyd-addoli ar Fferm y Bargoed

Ar ddechrau mis Gorffennaf, aeth plant a phobl ifanc Ysgol Sul ac Ieuenctid Capel y Morfa ar drip arbennig i Fferm y Bargoed i fwynhau *Diwrnod o Hwyl yng Nghwmni Martyn Geraint*. Roedd y diwrnod yn gyfle gwerthfawr i ddod ynghyd gydag eglwysi eraill Ceredigion i addoli, dysgu a chael hwyl mewn awyrgylch Cristnogol cyfeillgar.




Bu pawb yn rhan o sesiwn fywiog o gyd-addoli drwy ganu emynau a chaneuon poblogaidd dan arweiniad Martyn Geraint. Yn ystod yr amser hwn, cawsom ein hatgoffa o natur Duw – Y Tad, Mab ac Ysbryd Glan – trwy weld Martyn yn rhannu banana'n mewn i dri rhan ar ei hyd!

Yn ogystal â'r gweithgareddau mwy ffurfiol, cafodd y plant gyfle i fwynhau'r gofod chwarae meddal a'r trampolinau. Roedd yn gyfle da i redeg, chwarae a gwneud ffrindiau newydd. Llwyddodd yr oedolion i eistedd i lawr gyda'i gilydd dros ginio, gan fwynhau cwmni ei gilydd a chymdeithasu mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar.  Roedd yn ddiwrnod llawn bendith, hwyl a chymdeithas dda, a hoffem ddiolch i Martyn Geraint ac i bawb a fu'n rhan o drefnu'r achlysur.

*Owain Roberts*

## Cinio Bara a Chaws

Ni fydd y Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn digwydd dros yr haf. Cynhelir y cinio nesaf ar ddydd Llun, **7 Medi rhwng 12.00 a 1.30pm** yng Nghanolfan St. Paul

**Diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn**.

### Cymdeithas Gweddi a Choffi ac Astudiaeth Ffydd a Phaned

Bydd Cymdeithas Gweddi a Choffi yn dechrau ym mis Medi bob yn ail fore Mawrth am 10:30 yn y festri ac ar Zoom o 11.

Bydd Astudiaeth Ffydd a Phaned yn dechrau yn mis Medi bob yn ail wythnos.

### Y Gymdeithas

Bydd y Gymdeithas yn ail ddechrau’i dymor newydd ar nos Lun, 28 Medi am 7.00 o’r gloch yng nghwmni Eurig Salisbury a Hywel Griffiths, Bardd y Dref. Croeso cynnes i bawb.

# Ny Aco yng Nghapel y Morfa

Wel, am wledd i’r glust a’r llygad! Sôn ’rydw i am gyflwyniad Ny Aco yma yng Nghapel y Morfa nos Fawrth 7fed o Orffennaf. Parti ydyn nhw o gyd-Gristnogion o Fadagasgar, ynys sy’n gorwedd yng nghefnfor India, oddi ar arfordir de-ddwyrain Affrica. Difyr oedd clywed hen goel y trigolion, mai ôl troed chwith Duw a greodd siâp yr ynys, pan ddaeth o i gerdded y Ddaear!



A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn edrych ymlaen mor eiddgar â hynny at y noson, gan nad ydw i gymaint â hynny o ‘ffan’ o gerddoriaeth Affricanaidd - gormod o sŵn drymiau! Ond, diolch i fy synnwyr dyletswydd, mi ddes, a wir, mi ges i fy synnu ar yr ochr orau.





Gwnaeth cyflwyniad Ny Aco lwyr chwalu fy rhagfarn, ac fe'n tretiwyd i sioe reit 'annwyl' a dirodres, wnaeth ddim gwthio'r desibels y tu hwnt i oddefgarwch clustiau telynor sensitif Cymreig! Do, mi gafwyd symud a dawnsio egnïol, a lliwiau a chanu deinamig, ond roedd y sioe yn llawer mwy cynnil nag a ddisgwyliwn. Ac nid jest oherwydd agosatrwydd gofod perfformio y Morfa. Roedd natur ddiymhongar a diffuant y perfformwyr eu hunain yn gwneud i rywun gynhesu tuag atynt rywsut.



Cyflwynon nhw ychydig o hanes a gwybodaeth am yr ynys ei hun a’i phobl, gyda thablau am eu harferion a’u diwylliant - megis eu dull cymunedol o hau, tyfu, medi, trin, paratoi, coginio (***a*** bwyta!) reis (prif ymborth yr ynys), neu eu harfer o drin a phlethu gwallt y merched.

Ond estynnodd eu rhaglen y tu hwnt i ganeuon a dawnsio brodorol gyda’r gwisgoedd lliwgar ac offerynnau lleol. Cyflwynwyd canu mwy rhyngwladol a chyfoes hefyd. A’r cwbl, fel roedd sawl un ohonom ar y diwedd yn cytuno, yn adlewyrchiad o’u ffydd Gristnogol ddiffuant, yn fawl i’r Tad nefol am gael mwynhau bywyd, a mwynhau rhannu eu llawenydd yn yr Arglwydd gydag eraill. A ninnau oll, Dynol Ryw, i gofio mai un teulu, ei deulu ef, ydyn ni.



Yn ogystal â chaneuon mewn Malagasi (eu hiaith frodorol), clywyd Ffrangeg a Saesneg, ychydig o ganu Gospel, ac wedyn (gwnes i golli cownt!) ‘Mor fawr wyt Ti’ mewn nifer o wahanol ieithoedd, Sbaeneg, Rwsieg, Eidaleg, Ffrangeg, a mwy, gan gynnwys y Gymraeg - chwarae teg iddynt! - yn pwysleisio undod dynol ryw o dan drefn ein Tad nefol.

Gwledd i’r glust a’r llygad? Ie, ond yn wledd i’r enaid hefyd. Teimlais fendith o wrando ar Ny Aco, wrth weld a chlywed mynegiant o’u ffydd syml ac onest, yn cyfathrebu i ni eu llawenydd yn yr Arglwydd a’u diolch iddo.



Ar ddiwedd y noson, wrth siarad ag aelodau’r grŵp, digwyddais ddweud wrth un o’r perfformwyr wedyn, yn fy Ffrangeg gorau(!), mor braf oedd eu gweld nhw i gyd yn gwenu mor hyfryd drwy’r amser wrth iddynt ganu a dawnsio, eu bod yn edrych mor llawen. A dyma hithau’n fy ateb, gan roi’i llaw dros ei chalon, *“Mais oui! La joie du Seigneur!”* - “ Wel, ie! Llawenydd yr Arglwydd!”

Diolch, Ny Aco, am roi o’ch amser eich hunain i ddod draw mor bell atom i rannu eich ffydd a’ch llawenydd yn yr Arglwydd a’i ddaioni gyda ni. Bendith arnoch ac ar eich taith.

*Robin Huw Bowen*

# Pantri Aber

Mae Pantri Aber yn dechrau ym Morlan bob dydd Gwener rhwng 2yp a 4yp o Awst 7fed ymlaen. O Awst 3ydd i ddiwedd mis Tachwedd, Pantri Aber yw un o'r tri dewis am docynnau glas yn Tesco Aberystwyth. Byddem ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn pleidleisio dros Pantri Aber. Bydd yr arian yn mynd tuag at brynu ffrwythau ffres i aelodau Pantri Aber.




*Catherine Griffiths*

# Gwasanaeth cwnsela HAHAV wedi helpu Robin

Ychydig wythnosau nôl cyhoeddodd Cymru Fyw erthygl am y cymorth cwnsela cafodd un o'n aelodau Robin Huw Bowen gan HAHAV. I ddarllen yr erthygl ewch i:
https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/erthyglau/c33y0x2v3dro?at_campaign_type=owned&at_medium=social&at_campaign=Social_Flow&at_link_type=web_link&at_ptr_name=facebook_page&at_link_id=511F14F2-7C1E-11F1-9C0C-9C5D999BD7F6&at_format=link&at_link_origin=BBC_Cymru_Fyw&at_bbc_team=editorial

Mae hyn yn dangos y gwaith cwnsela clodwiw a ddarperir gan HAHAV i helpu pobl i ymdopi â galar. Gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Cynhaliwyd diwrnod agored yn ddiweddar i arddangos y cyfleusterau newydd sydd ym Mhlas Antaron, canolfan HAHAV. I ddarllen rhagor am yr amrywiol fathau o gymorth a ddarperir gan HAHAV ewch i'w gwefan:
https://hahav.org.uk/companionship-and-help/?lang=cy



## Ann a Steve




Dyma lun o Ann Griffith a'i gwr Steve Hollingworth, a fu'n addoli yn ein plith yn mis Gorffennaf. Roedd Ann yn ferch i'r Parchg Huw Wynne Griffith a Mrs Mair Griffith, Seilo. Ar ôl gwneud gwaith elusennol dramor maent nawr yn byw yn Washington D.C., U.D.A. Mae Ann a Steve wrth eu bodd yn ymweld â theulu a ffrindiau yng Nghymru a'r Eisteddfod Genedlaethol a braf oedd eu croesawi i oedfaon Capel y Morfa dros yr haf.

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

# SASIWN GENHADOL Y DE

# ENCIL CENHADOL

## Neuadd Llanddarog
## Medi 24ain 2026

Dechrau am 11 gyda choffi o 10:15 ymlaen

**Arweinydd:Thomas Ellis Williams**
**Thema: 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin'**

**£22 fydd cost y dydd**
**Darperir cinio dau gwrs**

# Gweddi dros y byd



Arglwydd ein Duw
Yr wyt ti wedi'n dysgu i weddïo dros bawb;
Gwrando ar ein hymbiliau dros y byd a thros
bawb mewn angen.

Gweddïwn dros holl genhedloedd y ddaear,
Rho heddwch rhwng pobloedd,
Ac arwain y byd o afael gormes ac ysbryd rhyfelgar.

Gweddïwn dros ein gwlad,
A thros bawb sydd yn arwain ac yn llywodraethu;
Rho iddynt oleuni doethineb
I ddefnyddio'u doniau er lles Cymdeithas.

Gweddïwn dros ein teuluoedd a'n cartrefi,
Dros ein hanwyliaid a'n ffrindiau oll:
Rho dy fendith iddynt a chysgoda drostynt.

Gweddïwn dros y claf, y gwan a'r amddifad,
Rho dy gymorth iddynt
A gad iddynt brofi dy allu iachaol.

Gweddïwn dros dy Eglwys
A thros gynulleidfaoedd dy bobl ymhob man;
Gad i'r rhai sy'n caru'n Gwaredwr ei garu'n fwy
ac ymroi i'w wasanaethu a'i glodfori.  Amen.

Allan o *Cymer fy munudau* gan Elfed ap Nefydd Roberts

# Dyddiadur Awst 2026

## Blaenor y mis: Robin Huw Bowen

### Gwasanaethau'r Sul: Undebol am 10 y bore yng Nghapel y Morfa, Seion neu Bethel.

2 - Judith Morris (Undebol ym **Methel**)
9 - Eifion Roberts (Undebol yng **Nghapel y Morfa**)
16 - Beryl Vaughan (Undebol yn **Seion**)
23 - Peter Thomas (Undebol ym **Methel**)
30 - Rhidian Griffiths (Undebol yng **Nghapel y Morfa**)

### Rhestr flodau Capel y Morfa

9 – Eleri Davies
30 – Valerie Holden a Joyce Knight

**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.**
**Diolch i Robin, Catherine ac Owain am y lluniau.**
**Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Hydref o Perthyn i Arwel (rocetarwel@yahoo.com) neu Sharon (sharonowen527@btinternet.com) erbyn dydd Gwener 18 Medi, os gwelwch yn dda.**

# Dyddiadur Medi 2026

## Blaenor y mis: Huw Chambers

### Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser ar y Sul cyntaf a’r trydydd Sul o’r mis.

6 - Y Parchg Eifion Roberts (oedfa Gymun)
13 - Y Parchg Judith Morris
20 - Y Parchg Eifion Roberts
27 - Y Parchg Aled Davies

### Rhestr flodau Capel y Morfa

6 – Dafydd Morgan Evans
13 – Ellen a Huw Evans
20 – Valerie Ann Jones
27 – Mary Thomas

**Ysgol Sul:** Plant ac ieuenctid: yn y festri.

**Cylch gweddi a choffi:** Bob yn ail bore Mawrth am 11, hefyd ar Zoom.

**Ffydd a phaned:** Manylion i ddilyn.